# DWY FARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM

# ISAAC THOMAS,

## O'R FEDW-DEW,

UN O DDIACONIAID Y BEDYDDWYR YM MHANTYCELYN,
PLWYF LLANFIHANGEL-ABERGWESYN,
SWYDD FRYCHEINIOG,

Yr hwn a fu farw Gorphenaf 25, 1832,

YN 60 MLWYDD OED.

---

Y GYNTAF

GAN JOHN ARTHYR;

A'R AIL

GAN JOHN MORGAN, DOL-Y-FAN.

---

Pob dyn, ei derfyn yw darfod,—gwiliwch,
A byddwch yn barod;
I bawb sydd mae'r dydd yn d'od,
Llawr isel i'ch llwyr osod. J. A.

---

LLANYMDDYFRI:
ARGRAFFWYD GAN D. R. a W. REES.

1832.

# Y FARWNAD GYNTAF,

GAN JOHN ARTHYR.

---

1 OCH o'r newydd, och yw'r niwed,
Och yn glafaidd, och o'i glywed,
Och mewn dolur, och a'm daliodd,
Och o'r boreu, och a barodd ;
Och waith marw milwr ffyddlon,
Dolur sydd i deulu Sïon;
Gan hynny 'nawr, waith torri lawr,
Mae galar mawr ac wylo,
'Nol ei ymdaith, roi mewn amdo
Un o'r dyrfa draw i dario ;
O waith gosod aelod eglwys
Ar oer arffed bedd i orphwys,
Amrywiol sydd â'u bronau'n brudd,
O herwydd rhyw fawr hiraeth,—
O fod iddo fyned ymaith,—
Ar ei ol mae dirfawr alaeth.

2 Isaac Thomas fwyn arafaidd,
A fu'n ddiwyd hyd ei ddiwedd,
Yn yr eglwys gyda'i frodyr,
Cafodd ffydd yn nydd y frwydyr ;
Bu fel cangen yn y winllan,
Ffrwythodd a blagurodd allan,

O dduwiol ddawn, a'u ffrwythau llawn,
Fe gafwyd iawn arwyddion
Fod ei wraidd ar lan yr afon,
Sy'n dwfrhau teuluoedd Sïon;
Planhigyn hardd yng ngardd Jehofa,
Yn ddiammeu oedd ef yma,
A'i ddewis nod, o dan y rhod,
Oedd canu clod ei Arglwydd,
Mewn athrawiaeth helaeth hylwydd,
Y trugarog Dduw tragywydd.

3 Wrth ei weled ar ei wely,
Pan yr oedd ei gorph yn gwaelu,
'R Sabbath olaf yn ei fywyd,
Rhoddodd im' gynghorion hyfryd;
Er ei fod e'n dechreu bloesgi,
D'wedai'n groyw, Paid ag oedi,
Dyledswydd yw ar bob dyn byw,
Addoli Duw yn ddilys:
Na foed neb am fyw'n rhyfygus,
Nac am fod dan gysgod esgus;
Duw rho nerth i lwyr ymwrthod
Trawsa buchedd dyrys bechod,
Gwna i ni fod o dan y rhod
Yn barod am y boreu,
Yn ddi-yngan fe ddaw angeu,
Yna byddwn oll mewn beddau.

4 O fewn eglwys Pantycelyn,
Y mae'r dyrfa'n brudd o'i derfyn,
Adwy sydd i weled yno,
O waith iddo lwyr ymado;
Ni cheir yma'i fwyn gyfeillach
Bwyllog, mewn un oedfa bellach,

Aeth ym mla'n, o ddwr a thân,
I Ganaan draw i ganu,
Lle nid oes un loes ond hynny,
Ond gwir fwynhad o gariad Iesu:
Fe fu marw iddo'n elw,
I ddedwyddwch ca'dd ei alw,
Trwy angeu glas, o'r byd i ma's,
I deyrnas y nef dirion,
At y saint i fynydd Sïon,
Uwchlaw gafael pob gelynion.

5 Chwi sy 'nawr yn blaid gariadus,
Yn yr eglwys filwriaethus,
Gwrandewch hiraeth mewn cym'dog-
aeth,
Oer a dolur yw i'r dalaith,
Ar ol hardd bererin hawddgar,
Y mae tristwch mawr a galar;
Wrth gofio dydd ei arwyl brudd,
Mwy gofid sydd i'w ganfod,
Gyda'i anwyl deulu hynod,
Am nas gallant mwy mo'i 'nabod:
Pantycelyn ydyw'r annedd,
'Nol ei yrfa rho'wd e'i orwedd
Dan oeraidd gwys, o'r byd a'i bwys,
Mae'n gorphwys er ei goffa,
Ca'dd ei enaid wir ddihangfa
At Dduw siriol, gwir Fessia.

6 Bellach boed i ninnau ddyfod
I ddiddosrwydd cyn daw'r gafod;
Fel ar hanner nos bydd galwad,
Yn ddwys-gynnar, heb ddisgwyliad,
Nid oes neb o'r byd yn gwybod
Ar bwy ddydd bydd angeu'n dyfod;

At Iesu dewch, os felly gwnewch,
Gan Dduw chwi gewch dderbyniad,
Ni cha'dd neb erioed wrthodiad
Oedd am dd'od at Dduw trwy gariad:
Duw o'i awdurdodau didwyll
Barodd gynneu'r fuddiol ganwyll;
Aed llewyrch hon trwy'r byd o'r bron,
Yn dirion ar adenydd,
Oll trwy gyrrau'r byd ar gynnydd,
Boed derbyniad iddi beunydd.

7 Isaac fel offeryn ffyddlon,
A fu'n ddiwyd trwy'r odfeuon,
Bu'n oruchwyliwr diesgeulus
Yn yr eglwys filwriaethus;
Pan bai'r brodyr yn ymgynnull,
Carai fod o fewn i'r gwersyll,
Ca'dd nerth o hyd, gan Dduw mewn
pryd,
I bara hyd y diwedd;
Daeth yn symyl at y sylwedd,
Yn dra gwrol, trwy drugaredd,
Cafodd lamp ac olew hefyd,
Wrth dynnu 'mlaen tua thir y bywyd,
A chadarn ffydd, o ddydd i ddydd,
Mewn cynnydd mwyaf cynnes;
O mor hynod, nid mewn hanes,
Ond mewn profiad, cariad cynnes.

8 Hiraeth dirfawr dan fy'm dwyfron
Sydd wrth gofio ei gynghorion;
Gyda Iago fe ddywedodd,
Gwael yw ffydd heb ddim gweithred-
o'dd,

Gan fod honno'n hollol farw,
A'i pherchennog yn ddielw ;
Ond duwiol ffydd, p'le bynna' bydd,
Mawr elw fydd o'r alwad,
A ro'dd Iesu trwy ddewisiad,
Draw o gyrrau noddfa'i gariad ;
Gyda siriol wir sancteiddrwydd,
Trwy'r athrawiaeth helaeth hylwydd ;
I Sïon saint, braf yw eu braint,
Duw cymmaint yw eu cymmod,
Er mor gased, wedi'i gosod,
Nerth wrth raid o'u plaid sy'n barod.

9 Mae ei anwyl wraig arafaidd
Yn galaru mewn gŵyl oeraidd,
O waith marw ei hanwyl briod,
Maith yw'r gofid, methu ei ganfod ;
A'i thair merch serchogaidd hefyd
Etto sydd bob dydd mewn tristyd,
Ar ol eu tad mwyneiddwych mad
O'r alwad mae oer wylo,
Am nas gwelant hwy mo hono
Mwy ond hynny yma'n tario ;
Yn y Fedw gwelir gwagle,—
Gwelais eisioes yno'i eisiau,
Waith d'od yr awr nad yw e nawr
Ar wyneb llawr i'w weled ;
Am ei golli mae mawr golled,
Aeth o gyrraedd byd i gerdded.

10 Deunaw cant a thri o ddegau,
A dwy'n rhagor o flynyddau,
Ydoedd oedran ein Iachawdwr,
Mwyn gwiw radol, a'n Gwaredwr ;

Chwech o ddegau ydoedd yntau
Pan y dodwyd gyda'i dadau,
Yn llwch y bedd, mewn isel wedd,
Lle gorwedd y llu gwirion,
Fel mewn ystyr yng ngwlad estron,
Draw o gyrraedd chwerw droion;
Ond ei enaid aeth i orphwys
Yn barodol i baradwys;
I foli'r Oen, mewn hwylus hoen,
Heb friw, na phoen, na gofid,
A'i wisg yn wen fel haulwen hyfryd,
Draw i'r bedd, ar dir y bywyd.

11 Ffarwel Isaac mwy ond hynny,
'Nawr mae'n rhaid i mi roi fynu;
Ffarwel cael ei fwyn gyfeillach,
Hunodd, hedodd adre'n holliach;
Ffarwel gwel'd ei wyneb siriol
Yma byth ym mhlith y bobol;
Ffarwel frawd 'nol y cnawd,
Nid wyt ti dlawd heddy',
Ffarwel iti dan alaru,
Ffarwel etto dan lawenu;
Na thristawn fel rhai heb obaith,
O waith iddo fyned ymaith;
Ond ceisiwn hedd tu yma i'r bedd,
Mae'n diwedd bron a dywad;
Arglwydd, dyro cyn daw'r alwad
Wir adnabod dwyfol Geidwad.

12 Duw a nertho'r weddw dirion,
Etto sydd dan bruddaidd droion;
Nerth i'r rhai ymddifaid hefyd
I gadw'r ffydd yn nydd eu bywyd;

Argyhoedda'r byd o bechod,
I 'mo'yn rhyddhad y'ngwa'd y cymmod;
Aed peraidd sain efengyl gain
I gywrain ragori,
Nes dwyn dynion i'r daioni,
A'i dadwreiddio o fudreddi:
Duw, rho edifeirwch siriol,
A sancteiddrwydd cyfrannogol;
Aed heddwch Ior o for hyd for,
Dros gyfor daear gyfan,
Amen felly o hyn allan,
Boed pob clod i Dduw ei hunan.

---

Hedodd at Dduw mewn hyder,—i'r dilys
Ardaloedd uchelder,
Yn yr iawn a'i gyfiawnder,
Oll a'i nawdd ar allu Ner.

DIWEDD Y FARWNAD GYNTAF

# YR AIL FARWNAD,

GAN JOHN MORGAN.

---

1 Blin newyddion, coll cysuron,
Sydd yn gyson yn y byd,
Croes i natur yw'r rhan fwyaf
A geir ynddo braidd i gyd;
Ond rhyw newydd yn bresennol
Annymunol ddaeth i'm clyw,
Sef bod cyfaill anwyl imi
Wedi'i dorri o blith y byw.

2 Brenin mawr y dychryniadau
Ddaeth ryw forau atto'n lân,—
Rhodd ffarwel i'r byd a'i bethau,
A'i ofidiau fawr a mân;
Aeth, 'rwy'n credu, at yr Iesu,
I wlad olau heb ddim nos,
Lle nad oes dim un o'r teulu
Yno'n chwennych tynnu'n gro's.

3 Isaac Thomas, cyfaill anwyl
Oeddit imi yn y byd,
Da oedd gennyf dy ymddiddan
Pan y byddem ni'n dau 'nghyd;
Rhoddaist imi ddwys gynghorion
Fel y rho'ist i lawer un,
I ymwadu â llwybrau pechod,
Ac i ganlyn Mab y Dyn.

4 Dyna oedd ei lef feunyddiol,—
Arglwydd, maddau'm beiau'n rhad,
Gwisg fi â nerth o'r uchelderau,
Golch fy enaid yn dy wa'd;
Fel bwy'n addas 'ddod i'r ddinas,
At gyfeillion anwyl iawn,
Fuont gyda mi'n cyd-deithio
Yn yr anial fore a nawn.

5 Yn ei ie'ngctyd ca'dd ei alw
I filwrio 'ngwinllan Duw,
Ac fe weithiodd ynddi'n ddiwyd
Tra bu yn y byd yn byw;
Braidd caed odfa yn ei ardal
Na bai Isaac fwyn yn bod
Ynddi'n gwaeddi am faddeuant,
Ac i Iesu gael y clod.

6 Ugain mlwydd a dwy yn chwaneg
Oedd ei oed pan ddaeth i'w dŷ,
Bu yn wrol yn ei dymor
Yn gwas'naethu Iesu cu;
Tair ar ddeg at hynny wed'yn,
Pan yn Ddiacon y rhow'd ef,
I hyfforddi gweiniaid Sïon,
A'u cynghori 'ngeiriau'r nef.

7 'Roedd fel swyddog yn yr eglwys
Ynddi'n barchus yn ei ddydd,
Hyd nes daeth ei ymddattodiad,—
Ca'dd o'i ofid fyn'd yn rhydd;
Triniai fatter yn ddiragrith,
Ac ni chuddiai ef ddim bai;

Doi â'r pwngc i'r ochor oreu,
Nid oes neb all dd'wedyd llai.

8 'Doedd ef byth am ddim ymryson
Mewn un man lle bai e'n bod,
Pawb mewn heddwch oedd e'n chwennych,
Fel cai Iesu mawr y clod;
Fe fu'n wastad, tra fy yma,
A'i holl egni gyda'r gwaith,
Parodd felly nes terfynu
A'r byd hwn â'i yrfa faith.

9 Ei hoff waith ef oedd bob amser
Bod yn dyner wrth yr ŵyn,
A'u cynghori mewn modd medrus;
Wnai e'n llon mewn ysbryd mwyn;
Fe saif rhai o'i ddwys gynghorion
Ar feddyliau llawer un,
Ro'dd ef iddo yn y dirgel,
Pan y byddai wrtho'i hun.

10 D'wedai 'chydig cyn ymadael,
O! na chawn wel'd Iesu cu,
Nid oes arnaf i ddim dychryn
I wynebu angau du;
O am gael ymddattod bellach,
A gwel'd Iesu fel y mae,
Ronyn bach cyn iddo farw,
Oedd y geiriau a goffâi.

11 'Roedd ei hyder ef yn gadarn
Megis angor yn y graig,
A'i ffydd fywiog yn ddiysgog
Yn yr Iesu, Had y wraig;

D'wedai yn yr oriau olaf
Bu e'n gwisgo corph o gnawd,
Iesu, Iesu'r wyt ti'n ddigon,
Bydd yn Briod ac yn Frawd.

12 'Roedd ei rodiad ef bob amser
Tra ca'dd gennad yma i fyw,
Yn lled agos wrth y rheol
Osodwyd iddo gan ei Dduw;
Parchu deddfau aeddfwyn Iesu,
A'i orch'mynion wnaeth o hyd;
Dyna oedd ei amcan beunydd,
Tra fu yma yn y byd.

13 Son am grefydd oedd ei gysur
A'i hyfrydwch trwy ei oes,
Son am eirwon loesau chwerwon
Iesu'n marw ar y groes;
Son am dano fel Achubwr
A Gwaredwr euog ddyn,
Oedd ei elfen wrth bechadur,
Fel do'i hwn i wel'd ei lun.

14 D'weud am bethau'r nef bob amser
Wnai e'n eglur yma îs nen,
Nes y daeth e'n d'wysen aeddfed
I fyn'd draw tu fewn i'r llen;
'Nawr rwy'n colli 'ngolwg arno,
Fe ehedodd uwch y sêr,
Mae ef heddyw, greda'i'n groyw,
Fry ym mhreswyl anwyl Ner.

15 Colled mawr oedd hyn i Sïon,
Gwelai'r adwy'n eitha'i lled;

Pwy'n yr ardal all ei llanw?
  Tybia llawer nad oes neb;
Duw yn unig â'i fraich rymmus
  A all godi un yn rhwydd
O'r rhai gwanaf gyda'r achos
  I gyflawni etto'i swydd.

16 Credu'r wyf fod pawb o'r eglwys
  Yn galaru'n bruddaidd iawn,
O waith colli hardd blanhigyn
  Oedd â'i ffrwythau arno'n llawn;
Colli aelod, colli swyddog,
  Oedd yn selog, colled mwy;
Er mawr hiraeth, nid oes gobaith
  Am ei weled,—dyma glwy'.

17 Mae teuluoedd llawn o'u gwirfodd
  'Nawr o bobloedd gyda ni
Yn galaru o waith colli
  Isaac heini, cyfaill cu;
Ond yn ofer fydd yn arfer,
  Yn ei gyfer aeth ef trwy
Eirwon donnau afon angau,
  Gyda'i dadau bydd ef mwy.

18 Ti, Elizabeth, gwraig anwyl
  Oeddit iddo yn y byd,
Paid galaru am ei golli,
  Ofer fydd dy waith i gyd;
Ymgysura yn yr Iesu
  Ac ymro i gadw'r ffydd,
Mae ef wedi addo'n gadarn
  Fod yn rhwysg i'r weddw brudd.

19 Chwithau ferched, ei blant hawddgar,
Ymgysurwch yn y Mab,
Peidiwch mwyach a galaru,
Er ich' golli tirion dad;
Tyner oedd i'w blant a'i briod
Tra fu yma ar ei daith
A'u cynghori wnai'n feunyddiol
I ymbar'toi i'r siwrnau faith.

20 'Nawr boed i chwi mwy eich pedair
Gofio ei gynghorion dwys,
A'u defnyddio heb ddiffygio
Nes eich priddo dan y gwys;
Nerth i bobloedd yr ardaloedd
Ddo'd o'u gwirfodd yn gytun
'Mofyn ëon grefydd gyson
Un o roddion Duw ei hun.

21 I gael oesi 'ngwlad goleuni,
Gyda'r cwm'ni disglair iawn,
Sydd yn seinio, yn ddiflino,
'Nawr am dano fore a nawn;
'Mhlith y dyrfa ga's ddihangfa,
Mi ddych'myga gwela'i 'n glir
Isaac Thomas mewn cymdeithas,
Fry ym mro Caersalem dir.

22 Bellach rhaid im' roddi fynu,
Rhag eich blino â fy nghân;
Ni chaf wel'd 'mo hono mwyach,
Fel y gwelais ef o'r bla'n;
Ond gobeithio cawn gyd-gwrddyd
Fry mewn ailfyd yn y nef,
Pawb â'i delyn am y tynnaf,
O'r un anian a'r un lef.

23 Trugain mlwydd, heb fawr yn rhagor,
Oedd ei oed pan ddaeth yr awr
'Gorfu iddo huno'n angau,
A 'mado'n lân a'r cystudd mawr;
Deunaw cant a deg-ar-hugain,
Dwy yn 'chwaneg, meddaf fi,
Pan ro'w'd Isaac yn ei feddrod,
Ydoedd oedran Iesu cu.

24 Credu'r wyf ei fod ef heddyw
Yn y nefoedd burwen fry,
Yno'n seinio Haleluia
Gyda'r gôr angylaidd gu,
Wedi dianc trwy bob gofid
Yn iach draw tu fewn i'r llen;
Bod yn barod i fyn'd atto
Fyddo 'ngweddi byth, Amen.

D. R. a W. REES, ARGRAFFYDDION, LLANYMDDYFRI.